Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Bartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Wrecsam
**Neuadd y Dref**
**Wrecsam**
**LL11 1AY**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2011**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**© Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Tref Wrecsam yw'r ganolfan fasnachol a gweinyddol ar gyfer Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn ne ddwyrain Cymru. Mae poblogaeth Wrecsam wedi tyfu'n gyson o 128,540 yn 2001 i 133,559 yn 2011. Mae ychydig dros hanner y boblogaeth yn byw yn nhref Wrecsam neu'r pentrefi trefol cyfagos. Mae pum ardal Cymunedau yn Gyntaf ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam, sef: Plas Madoc; Queensway; Parc Caia; Gwenfro a Hightown. Ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, mae pedair ward ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam ymhlith yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae'r sir yn parhau i fod yn ardal diwydiannau ysgafn.

- Y cyfraddau cyflogaeth blynyddol yw 72.8% a'r rhain yw'r uchaf yng Nghymru yn erbyn cyfartaledd o 66.4% yng Nghymru (Rhagfyr 2010).
- Y gyfradd anweithgarwch economaidd flynyddol yw'r isaf yng Nghymru, sef 18.6% yn erbyn cyfartaledd o 23.8% yng Nghymru (Rhagfyr 2010).
- Mae cyfradd y budd-dal analluogrwydd, sef 8.1%, a'r lwfans Ceiswyr Gwaith, sef 3.5%, ill dau ymhell islaw cyfartaleddau Cymru, sef 9.5% a 3.9% (Chwefror 2011).
- Nifer y preswylwyr yn Wrecsam nad oes ganddynt unrhyw gymwysterau yw 8.9% ac mae gan 16.3% gymwysterau islaw lefel 2.
- Nid yw pedwar pwynt dau y cant o ymadawyr ysgol Blwyddyn 11 ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NACH 2010). Mae hyn islaw cyfartaledd Cymru, sef 5.4% ac yn ostyngiad o 5% yn 2009.

Dyma'r rhanddeiliaid a'r darparwyr sy'n cymryd rhan yn y bartneriaeth:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam;
- Coleg Iâl;
- Cymdeithas Addysg y Gweithwyr Coleg Harlech;
- Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol yn Wrecsam (AVOW);
- Cymunedau yn Gyntaf, Partneriaeth Parc Caia;
- Partneriaeth Gymunedol Dyffryn Dyfrdwy; a
- Phrifysgol Glyndŵr.

Cyflwynir wyth deg y cant o'r ddarpariaeth gan Goleg Iâl mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y darparwr** | **Anfoddhaol** |
| **Rhagolygon gwella'r darparwr** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Bernir bod darpariaeth y bartneriaeth yn annigonol oherwydd:

- nid oes unrhyw ddadansoddiad strategol nac archwiliad systematig wedi bod o anghenion dysgwyr a'r gymuned.  O ganlyniad, nid yw'n glir fod y ddarpariaeth yn bodloni anghenion dysgwyr o fewn y sir;
- nid yw'r gweithdrefnau comisiynu yn ddigon effeithiol ar hyn o bryd i sicrhau bod ystod, natur, lefel neu ansawdd y ddarpariaeth yn gweddu i anghenion y gymuned;
- nid yw'r strategaeth arsylwi ar y cyd wedi bod yn ddigon effeithiol eto i wella safonau mewn addysgu;
- nad yw'r gorddibynnu ar ystod gyfyngedig iawn o gymwysterau ar gyfer addysg sylfaenol i oedolion (ASO) a dysgwyr Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE) yn cynnig digon o her iddynt neu'n datblygu eu medrau'n ddigon da;
- nad oes dull cyffredin, ar y cyd, o fonitro ansawdd ac arfarnu sy'n galluogi partneriaid i gynllunio ar gyfer gwella safonau i ddysgwyr; ac
- mae cynnydd wrth fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad diwethaf wedi bod yn araf, ac nid aethpwyd i'r afael yn llawn â llawer o'r argymhellion eto.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r bartneriaeth yn ddigonol oherwydd:

- bod y bartneriaeth wedi datblygu cyfeiriad strategol newydd sy'n cael ei arwain gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ac yn cael ei ymgorffori'n dda mewn cynllun strategol clir;
- bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi ymrwymo i roi arweinyddiaeth glir i'r Bwrdd Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned;
- bod gweledigaeth glir gan y Prif Weithredwr i yrru dysgu oedolion yn y gymuned ymlaen yn y sir;
- aeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i'r afael â materion pwysig a gododd yn ystod yr arolygiad ar unwaith ac yn gyflym;
- bod Cydlynydd Dysgu Oedolion yn y Gymuned wedi cael ei benodi'n ddiweddar gyda brîff clir i ysgogi gwelliannau ansawdd; a
- bod partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd yn dda ar lefel weithredol.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r bartneriaeth:

A1 ddatblygu dadansoddiad clir o'r hyn sydd ei angen ar ddysgwyr a'r gymuned o ddysgu oedolion yn y gymuned;

A2 gwella'r defnydd o ddata a rennir mewn cynllunio, monitro a datblygu ansawdd;

A3 sicrhau bod y cyngor yn datblygu mecanwaith comisiynu cynhwysol i sicrhau bod y ddarpariaeth ddysgu yn bodloni anghenion dysgwyr a chymunedau yn y ffordd orau;

A4 datblygu dull cyffredin, ar y cyd, o sicrhau ansawdd ar draws y bartneriaeth; a

A5 chwblhau'r camau angenrheidiol i fynd i'r afael â'r argymhellion hynny nad aethpwyd i'r afael â nhw'n llawn o'r arolygiad diwethaf, yn enwedig y rhai ar gyfer addysgu, asesu dysgu ac ar gyfer diogelu.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd tîm bach o arolygwyr yn dychwelyd ymhen rhyw flwyddyn am dridiau i adolygu'r cynnydd a wnaed wrth roi'r argymhellion ar waith ac i arfarnu cynnydd y strwythurau partneriaeth newydd.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

At ei gilydd, mae cyfradd lwyddo oedolion sy'n ddysgwyr yn y gymuned ar draws Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Ardal Wrecsam yn ddigonol.

Ar draws y bartneriaeth, mae cyrhaeddiad dysgwyr ar gyrsiau achrededig yn dda neu'n ddigonol. Mae data'r Bartneriaeth ar gwblhau, cyrhaeddiad a chwblhau'n llwyddiannus yn dangos tuedd ar i fyny ar draws y ddwy flynedd ddiwethaf a'r data nas gwiriwyd ar gyfer 2010/2011.

Mae cyfraddau cyrhaeddiad a llwyddo mewn SSIE yn ddigonol ac yn dda ar y cyfan mewn ASO. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr mewn ASO a SSIE yn cyflawni eu nodau dysgu tymor byr.

Mae cynnydd a chyflawniad mewn grwpiau penodol o ddysgwyr yn dda. Er enghraifft, mae bron pob dysgwr ar raglenni dysgu teuluol yn cyflawni eu targedau dysgu. Mae dysgwyr ar raglen 'Gwneud Dewisiadau mewn Gofal Plant' yn gwneud cynnydd da i gyrsiau eraill neu i weithio ym maes gofal plant.

Mae llawer o ddysgwyr mewn dosbarthiadau SSIE ac ASO yn gwneud cynnydd digonol wrth ddatblygu eu medrau llythrennedd, iaith a chyfathrebu. Fodd bynnag, nid yw llawer o ddysgwyr mewn dosbarthiadau eraill dysgu oedolion yn datblygu eu medrau llythrennedd yn effeithiol fel rhan o'u cwrs.

At ei gilydd, nid yw mwyafrif o ddysgwyr yn gwneud defnydd effeithiol o'u cynlluniau dysgu unigol. Nid ydynt yn gosod targedau dysgu byr penodol ac nid ydynt yn gallu monitro ac olrhain eu cynnydd eu hunain yn ddigon da.

Mewn ychydig iawn o ddosbarthiadau, mae dysgwyr yn datblygu eu defnydd o'r iaith Gymraeg yn dda.

**Lles: Da**

At ei gilydd, mae lles dysgwyr yn dda. Mae bron yr holl ddysgwyr yn mwynhau eu dysgu, yn llawn cymhelliant ac yn frwdfrydig. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn teimlo'n ddiogel yn y dosbarthiadau a'r lleoliadau y maent yn eu mynychu. Dywed lleiafrif o ddysgwyr fod mynychu cyrsiau wedi helpu iddynt feithrin agwedd gadarnhaol at gadw'n iach. Er enghraifft, mae un dysgwr mewn dosbarth TGCh yn awr yn gallu olrhain ei apwyntiadau meddygol ar-lein, ac mae dysgwr arall mewn sesiwn dysgu teuluol wedi dysgu am ddefnyddio'r rhyngrwyd yn ddiogel.

Mae presenoldeb dysgwyr yn dda ar y cyfan.

Mae dysgwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn dda ac mae bron pob un ohonynt yn dangos medrau dysgu annibynnol. Mae llawer o ddysgwyr mewn ardaloedd

Cymunedau yn Gyntaf wedi mynd ati i wella eu cymunedau. Maent yn deall gwerth cydweithio ac yn falch o'u medrau newydd.

Mae bron pob dysgwr yn datblygu ei hyder yn dda. Mae llawer ohonynt yn defnyddio eu dysgu i ymgysylltu â'r gymuned a'u teulu. Er enghraifft, mae un dysgwr a ymunodd â'r "clwb llyfrau" i ddysgu bod yn ddarllenydd gwell yn awr wedi magu hyder i ddarllen i'w phlant, a gyda nhw. Mewn un prosiect Cymunedau yn Gyntaf, mae grŵp o ddysgwyr sy'n Sipsiwn a Theithwyr wedi cwblhau lefel 2 mewn tystysgrifau paratoi bwyd a hylendid. Maent yn awr wedi dechrau coginio prydau ar gyfer pobl sy'n ymweld â'r ganolfan gymunedol.

Yn gyffredinol, nid yw dysgwyr bob amser yn ymwybodol o sut i gyfrannu i ddatblygu eu cyrsiau neu sut i ddylanwadu ar gynnwys sesiynau yn y dyfodol. Nid yw'r bartneriaeth yn cefnogi dysgwyr yn ddigon da bob amser, nac yn rhoi cyngor addas i'w galluogi i symud ymlaen i'r cyfnod dysgu nesaf.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r bartneriaeth yn cynnig ystod eang o raglenni achredededig ac anachredededig. Fodd bynnag, nid yw unedau ASO a SSIE y RhCA y mae dysgwyr yn gweithio tuag atynt yn cynnig digon o her nac yn rhoi cymwysterau ystyrlon iddynt.

Mae enghreifftiau da o gyrsiau sy'n ennyn diddordeb dysgwyr o grwpiau nad oes llawer o gynrychiolaeth ohonynt a dysgwyr sy'n amharod i fynychu dosbarthiadau mewn lleoliadau ffurfiol. Er enghraifft, dosbarthiadau mewn Mosg, darpariaeth ar gyfer dysgwyr â phroblemau iechyd meddwl a chymunedau Sipsiwn a Theithwyr.

Mae rhaglenni teuluol yn gwneud cysylltiadau effeithiol gydag asiantaethau eraill sy'n arwain at enghreifftiau o ddarpariaeth dda ar gyfer grwpiau dan anfantais mewn lleoliadau cymunedol.

Mae llawer o ddysgwyr yn teimlo bod staff yn helpu iddynt ddysgu a gwneud cynnydd ac yn teimlo y bydd dysgu yn eu helpu i gyflawni eu nodau.

Fodd bynnag, nid yw'r bartneriaeth wedi archwilio anghenion dysgwyr a'r gymuned yn systematig. O ganlyniad, nid yw'n glir bod y ddarpariaeth yn bodloni anghenion dysgwyr o fewn y sir. Nid yw dysgwyr yn elwa ar bamffled un cwrs, felly mae'n anodd iddynt weld trosolwg o ddarpariaeth y bartneriaeth. Mae mwyafrif o ddysgwyr yn gweld y gweithdrefnau cofrestru yn ddryslyd. Mae lleiafrif o ddysgwyr yn gweld y system cofrestru ar-lein yn rhwystr.

Nid oes digon o athrawon mewn dosbarthiadau dysgu oedolion yn datblygu medrau llythrennedd yn dda. Mae llawer ohonynt yn colli cyfleoedd i ymgorffori'r rhain yn y maes pwnc.

Mae tiwtoriaid yn gwybod sut i gyfeirio dysgwyr am gymorth medrau sylfaenol, ond nid oes gan bob tiwtor ymwybyddiaeth dda o sut i nodi anghenion medrau dysgwyr. Mae'r defnydd o Gymraeg achlysurol mewn dosbarthiadau yn gyfyngedig iawn. Mae

rhai enghreifftiau da o diwtoriaid yn ymgorffori'r dimensiwn Cymreig yn dda yn yr addysgu. Er enghraifft, mae cwrs Gofal Plant yn cynnwys darpariaeth gofal plant yn Gymraeg er mwyn gwella'r cyfleoedd cyflogaeth i'r rhai sy'n ddi-Gymraeg. Mewn lleiafrif o ddosbarthiadau, mae dysgwyr yn datblygu eu gwybodaeth am ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn dda.

**Addysgu: Digonol**

Mae'r addysgu'n dda neu'n dda iawn mewn tua hanner y sesiynau a arsylwyd gan y tîm arolygu. Yn y sesiynau hyn, mae tiwtoriaid yn cynllunio'n dda, yn bodloni anghenion dysgu'n briodol ac yn helpu dysgwyr i wneud cynnydd.

Mae gan y rhan fwyaf o athrawon wybodaeth bynciol dda ac maent yn defnyddio amrywiaeth eang o ddulliau addysgu. Mae cyflymder da i'r sesiynau ac mae rhai ohonynt yn integreiddio medrau llythrennedd a rhifedd yn dda.

Mewn lleiafrif o sesiynau, nid yw'r cynllunio'n ddigon effeithiol ac mae diffyg ffocws i'r addysgu. Nid yw rhai tiwtoriaid yn cynnig digon o her na symbyliad ar gyfer dysgwyr.

Nid yw lleiafrif o diwtoriaid yn addasu eu haddysgu'n ddigon da i fodloni gwahanol lefelau medrau pob dysgwr. Mae eu defnydd o gwestiynu i wirio dealltwriaeth dysgwyr yn gyfyngedig.

Mae tiwtoriaid yn defnyddio gwirfoddolwyr yn dda i roi cymorth un i un i ddysgwyr.

Nid yw llawer o diwtoriaid yn cynllunio asesu yn ddigon da. Nid ydynt yn cofnodi mannau cychwyn dysgwyr bob amser, ac felly ni allant ddweud pa mor dda y mae dysgwyr yn gwneud cynnydd. Nid ydynt yn helpu pob dysgwr i fyfyrio ar ei ddysgu neu'i gyflawniadau.

Mewn lleiafrif o ddosbarthiadau, nid yw tiwtoriaid yn rhoi digon o adborth llafar i annog dysgwyr. Yn ychwanegol, mae ansawdd yr adborth ysgrifenedig yn amrywio, ac yn aml, nid yw'n ddigon manwl i helpu dysgwyr i ddeall yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i wneud cynnydd.

Mae cynlluniau dysgu unigol yn amrywio o ran eu hansawdd a'u priodoldeb. Nid yw llawer o diwtoriaid yn defnyddio cynlluniau'n ddigon da i gofnodi ac olrhain cynnydd dysgwyr neu nodi meysydd i'w datblygu. Nid ydynt yn cynnwys targedau byr i fesur y cynnydd y mae dysgwyr yn ei wneud yn effeithiol. Mae'r targedau a osodir gan lawer o diwtoriaid yn canolbwyntio gormod ar ennill y cymhwyster yn hytrach na bodloni anghenion y dysgwyr.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol**

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn teimlo bod tiwtoriaid yn eu cefnogi'n dda. Mae rhai tiwtoriaid yn hyrwyddo iechyd a lles yn effeithiol yn eu sesiynau. Mae tiwtoriaid mewn rhaglenni dysgu teuluol yn cyfeirio'n dda at fwyta'n iach. Fodd bynnag, nid oes dealltwriaeth gyson ar draws y bartneriaeth ynglŷn â sut i gynnwys iechyd a lles mewn sesiynau.

Nid yw cyngor ac arweiniad cychwynnol bob amser yn rhoi cyngor clir i ddysgwyr am y rhaglenni sydd ar gael iddynt ar draws y bartneriaeth. Nid yw'r mwyafrif o ddysgwyr yn ymwybodol o'r gwasanaethau cymorth a gynigir gan y darparwyr.

Nid oes gan y bartneriaeth ddull strategol o nodi a gwneud yn siŵr bod dysgwyr yn cael cymorth dysgu'n gyson.

Nid yw dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol bob amser yn cael eu nodi'n ddigon cynnar er mwyn rhoi cymorth priodol ar waith ar ddechrau eu cwrs. Fodd bynnag, pan gânt eu nodi, maent yn cael cymorth da gan eu tiwtoriaid. Mae'r cymorth hwn yn helpu iddynt lwyddo ar eu cwrs yn ogystal â gwella eu hyder a'u hunan-barch. Lle bo'n briodol, mae gwirfoddolwyr dosbarth yn cynorthwyo ac yn mentora dysgwyr unigol yn dda.

Mae gan ddarparwyr unigol bolisïau a gweithdrefnau diogelu priodol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae pob un o'r rheolwyr a'r staff wedi ymrwymo i ethos o gynwysoldeb a pharch, ac yn ei annog. Mae tiwtoriaid yn rhoi sylw da i gydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae hyn yn helpu creu ethos cadarnhaol ymhlith staff a dysgwyr. Mae'r mwyafrif o diwtoriaid yn gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth dysgwyr o amrywiaeth yn dda.

At ei gilydd, mae safon yr adnoddau dysgu yn y rhan fwyaf o leoliadau yn dda. Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn defnyddio ystod dda o adnoddau, gan gynnwys byrddau gwyn rhyngweithiol, i ysgogi ymglymiad dysgwyr. Fodd bynnag, mewn rhai lleoliadau cymunedol, mae ansawdd yr adnoddau yn waeth. Ar draws y lleoliadau, nid oes digon o arddangosiadau sy'n annog dwyieithrwydd neu ymwybyddiaeth o ddiwylliant neu hanes Cymru.

At ei gilydd, mae ansawdd yr adeiladau yn dda. Yn y coleg, mae ansawdd yr adeiladau yn dda. Mae'r bartneriaeth yn defnyddio ystod eang o leoliadau mewn lleoliadau cymunedol, sydd fel arfer yn galluogi dysgwyr ar draws y bartneriaeth i fynychu dosbarthiadau yn agos at ble maent yn byw.

Nid yw'r bartneriaeth wedi cynnal archwiliad o'i hadeiladau i asesu eu haddasrwydd ar gyfer dysgwyr ag anawsterau ac anableddau. Mae rhai enghreifftiau o reolwyr a staff yn gwneud trefniadau addas i newid ystafelloedd i wneud yn siŵr nad yw dysgwyr yn cael eu rhoi dan anfantais.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Anfoddhaol |
| --- | --- |

**Arweinyddiaeth: Anfoddhaol**

Mae'r Bartneriaeth wedi datblygu strwythur priodol sy'n cynnwys grŵp strategol a grŵp gweithredol. Caiff gweithgarwch pob grŵp ei reoli yn awr gan Gydlynydd DOG a benodwyd yn ddiweddar, sydd â chylch gwaith clir i reoli gwella ansawdd. Yn ystod cyfnod yr arolygiad, dangosodd aelodau o CBS Wrecsam ymrwymiad i gynllun strategol defnyddiol a chytundeb ynghylch y manylion ynddo. Bwrdd Partneriaeth

DOG CBS Wrecsam sy'n gyfrifol am ddatblygu'r cynllun. Mae'r cynllun hwn yn amlinellu gweledigaeth ddefnyddiol a all lywio blaenoriaethu a chynllunio yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i'r Bwrdd hwn fod wedi datblygu amcanion clir a thargedau strategol a fydd yn galluogi iddo fonitro cynnydd ei strategaeth. At ei gilydd, mae'r ddarpariaeth bresennol yn dangos ymwybyddiaeth dda o'r egwyddorion a amlinellir yn nogfen "Cyflenwi Dysgu Cymunedol i Gymru" Llywodraeth Cymru.

Mae partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd yn dda ar lefel weithredol, gan rannu adnoddau yn aml. Fodd bynnag, nid oes dadansoddiad strategol clir o anghenion eto i alluogi'r Bwrdd Partneriaeth DOG i arfarnu a yw'r ddarpariaeth yn bodloni anghenion cymunedau a dysgwyr. Mae'r trydydd sector wedi cymryd rhan yn well yng ngrŵp rheoli gweithredol y Bartneriaeth yn ddiweddar, ac fe'i cynrychiolir ar y bwrdd strategol hefyd, ond nid yw'n cymryd digon o ran ym mhob agwedd ar gynllunio strategol eto.

Ceir enghreifftiau amlwg o bartneriaid yn cydweithio mewn rhannu data, sydd wedi creu trafodaethau defnyddiol am ansawdd. Fodd bynnag, nid yw pob partner yn cymryd rhan yn systematig yn y mentrau hyn. Nid yw enghreifftiau o'r fath wedi cael effaith amlwg ar welliannau i wasanaeth neu safonau ar gyfer dysgwyr eto.

Nid oes gan y bartneriaeth weithdrefnau comisiynu digon clir eto i'r Bwrdd Partneriaeth DOG allu sicrhau bod ystod, natur, lefel neu ansawdd y ddarpariaeth yn bodloni anghenion y gymuned.

**Gwella ansawdd: Anfoddhaol**

Mae enghreifftiau da o ddarparwyr yn defnyddio safbwyntiau dysgwyr yn ymatebol i ddatblygu darpariaeth leol. Mae gan y bartneriaeth strategaeth ymglymiad dysgwyr sy'n annog partneriaid i gasglu adborth a defnyddio hyn ar gyfer cynllunio. Nid yw'r strategaeth hon wedi effeithio'n llawn ar gynllunio ansawdd, ac nid yw'r strategaeth yn rhoi digon o sylw i anghenion a safbwyntiau'r dysgwyr hynny nad ydynt yn cymryd rhan mewn dysgu neu'n cymryd rhan trwy'r sector gwirfoddol neu raglenni cymunedol.

Mae cymryd rhan yn y bartneriaeth wedi helpu'r sector gwirfoddol i ddatblygu mecanweithiau sy'n gwella ansawdd ei darpariaeth.

Mae mentrau i wella ansawdd ar draws y bartneriaeth yn ymddangos, er enghraifft rhaglenni asesu cymheiriaid. Fodd bynnag, nid yw pob partner yn cymryd rhan yn y rhain yn rheolaidd. Nid yw deilliannau'r mentrau hyn wedi cael eu dadansoddi'n effeithiol i sicrhau bod canlyniadau ymyrraeth targedig yn arwain at wella ansawdd. Nid oes dull cyffredin, ar y cyd, o fonitro ac arfarnu ansawdd ar draws y partneriaethau sy'n galluogi partneriaid i feincnodi ansawdd neu gynllunio gwelliant yn effeithiol.

Mae gan y bartneriaeth gynllun datblygu ansawdd a all fod yn ddefnyddiol, sy'n ymdrin â llawer o'r materion y nodwyd gan arolygwyr Estyn eu bod yn flaenoriaethau ar gyfer gwella. Fodd bynnag, nid yw rhai amcanion ansawdd yn ddigon SMART, ac mae'r dyddiad targed ar gyfer eu cwblhau wedi mynd heibio. Mae'r cydlynydd DOG a benodwyd yn ddiweddar yn awr wedi cymryd cyfrifoldeb am fonitro a rheoli

cynnydd tuag at y targedau hyn trwy'r grŵp rheoli gweithredol Dysgu Gydol Oes o fewn y bartneriaeth.

Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r bartneriaeth wedi gwneud cynnydd digonol tuag at fodloni lleiafrif o argymhellion a wnaed gan arolygwyr Estyn yn yr adroddiad blaenorol. Fodd bynnag, mewn mwyafrif o argymhellion pwysig, mae'r cynnydd wedi bod yn rhy araf.

Roedd yr adroddiad hunanasesu (AHA) ar y cyd, a luniwyd gan y bartneriaeth ar gyfer yr arolygiad, yn agored ar y cyfan, ac yn cynnwys arfarniad digonol i alluogi'r bartneriaeth i lunio barnau am ddarpariaeth. At ei gilydd, roedd cyfatebiaeth dda rhwng canfyddiadau'r darparwr a chanfyddiadau tîm arolygu Estyn.

**Gweithio mewn partneriaeth: Anfoddhaol**

Mae cynllun datblygu ansawdd y bartneriaeth wedi sefydlu blaenoriaethau defnyddiol ar gyfer gwella, er bod y bartneriaeth wedi newid strwythur ddwywaith ers yr arolygiad diwethaf sydd wedi gohirio cynnydd wrth ddatblygu hyn. Mae partneriaid yn gweithio ar wahân pan fydd y cyllid wedi'i ddyrannu, ac fe gaiff y cwricwlwm ei benderfynu gan sefydliadau unigol. Mae hyn yn gweithio'n dda i'r dysgwyr hynny sy'n cael darpariaeth hyfyw. Fodd bynnag, nid yw hyn yn galluogi'r bartneriaeth i gael rheolaeth ddigonol dros gynllunio'r cwricwlwm, ac fe gaiff hyn effaith anffafriol ar gyfleoedd i ddysgwyr.

Mae partneriaid wedi ceisio nodi darpariaeth ar draws y bartneriaeth gyda'r bwriad o roi diwedd ar ddyblygu. Mae hyn wedi bod yn eithaf llwyddiannus, ond roedd yn gyfyngedig am na chymerodd pob darparwr ran yn yr ymarfer.

Mae'r ddau brif ddarparwr o fewn y bartneriaeth wedi monitro sampl fechan o athrawon o'r ddwy ochr. Nid yw'r deilliannau wedi cael eu dadansoddi'n effeithiol, ac nid yw'r effaith eto'n amlwg.

Nid yw'r wybodaeth am ddysgwyr yn cael ei rhannu'n ddigonol. Nid yw pob partner yn defnyddio fformatau data cyffredin ac mae hyn yn atal casglu data am ddysgwyr ar draws y bartneriaeth gyfan. Mae hyn yn golygu nad oes modd i'r bartneriaeth nodi a gwneud penderfyniadau am fylchau yn y ddarpariaeth, cynnydd dysgwyr unigol neu ba effaith a gaiff addysgu ar ddysgwyr. Ni chesglir unrhyw wybodaeth am ddarpar ddysgwyr nad ydynt yn defnyddio'r ddarpariaeth.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan bron bob un o'r staff gymwysterau da ar gyfer y pynciau y maent yn eu cyflwyno. Mae darparwyr unigol yn cynnig cyfleoedd priodol i staff ddatblygu eu medrau. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ddull strategol, partneriaeth o ddatblygu staff.

Mae'r bartneriaeth yn gwneud defnydd da o nifer o ganolfannau cymunedol modern sydd ag adnoddau da, a adeiladwyd o ganlyniad i gynnig cyfalaf i Gronfa Gymdeithasol Ewrop. Cynigir darpariaeth hefyd mewn nifer dda o ysgolion ar hyd a lled yr ardal ddaearyddol. Defnyddia'r coleg y rhain yn effeithiol ar gyfer cyflwyno'i ddarpariaeth DOG.

Nid oes gan y bartneriaeth strategaeth effeithiol i farchnata'r ddarpariaeth a recriwtio. Nid oes digon o gyfeirio dysgwyr o un sefydliad i'r llall, ac mae hyn yn cyfyngu ar ddewisiadau dysgwyr. Nid oes proses ymholi neu wneud cais i gyrsiau ar gyfer dysgwyr, felly ni chaiff unrhyw wybodaeth ei storio am ddysgwyr nad ydynt yn llwyddiannus adeg cofrestru.

Nid oes gan y bartneriaeth strategaeth i arfarnu effaith dysgu oedolion ar y gwerth am arian y mae'n ei gynnig.

Fodd bynnag, mae'r tîm arolygu yn barnu bod y bartneriaeth yn darparu gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1

**Boddhad dysgwyr**

Cynhaliodd Estyn arolwg ymhlith y dysgwyr ychydig cyn yr arolygiad o'r bartneriaeth.

Dychwelodd tri chant a dau ddeg dau o ddysgwyr yr holiadur, a chwblhaodd mwyafrif ohonynt y rhan fwyaf o'r cwestiynau. Fe wnaeth y canfyddiadau helpu Estyn i gael syniad o farn a phrofiad dysgwyr o'r ddarpariaeth a gyflwynir yn ardal y bartneriaeth ar hyn o bryd.

Dywedodd bron pob un o'r dysgwyr eu bod yn mwynhau eu dysgu ac y byddent yn argymell y darparwr dysgu i bobl eraill.

Dywedodd bron pob un ohonynt fod staff yn rhoi cymorth personol da, yn helpu iddynt ddysgu a gwneud cynnydd, a'u bod yn defnyddio deunyddiau dysgu o ansawdd da.

Roedd bron pob un o'r dysgwyr yn teimlo eu bod yn cael gwybodaeth dda gan y darparwr wrth ddewis eu cwrs. Fodd bynnag, roedd ychydig iawn o ddysgwyr yn teimlo nad oeddent yn cael cyngor da am ddewisiadau a'r hyn y gallent ei wneud pan fyddent yn gorffen eu cwrs.

Roedd ychydig iawn o ddysgwyr yn teimlo nad oedd digon o ddewisiadau cymorth dysgu ar gael iddynt, ac roedd ychydig iawn ohonynt yn teimlo nad oedd staff yn cynnig digon o gyfleoedd dysgu a chyfleoedd cymorth trwy gyfrwng y Gymraeg.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Gill Sims AEM | Arolygydd Cofnodol |
| Alun Connick AEM | Arolygydd Tîm |
| Mark Evans AEM | Arolygydd Tîm |
| Rachael Bubalo AEM | Arolygydd Tîm |
| Sian McArthur | Arolygydd Cymheiriaid |
| Ros Bellamy | Arolygydd Cymheiriaid |
| Donna Dickenson | Enwebai'r Darparwr |